Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

<table>
<tr><th>RHYBUDD O GYFARFOD</th><th colspan="2">NOTICE OF MEETING</th></tr>
<tr><td>CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG<br>(CYS)</td><td colspan="2">STANDING ADVISORY COUNCIL<br>(SAC)</td></tr>
<tr><td>DYDD MAWRTH, 10 CHWEFROR 2025<br>am 2:00 o’r gloch</td><td colspan="2">TUESDAY, 10 FEBRUARY 2026<br>at 2:00 pm</td></tr>
<tr><td>YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM</td><td colspan="2">COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM</td></tr>
<tr><td>Swyddog Pwyllgor</td><td>Shirley Cooke<br>01248 752518</td><td>Committee Officer</td></tr>
</table>

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**

**<u>Cynghorwyr / Councillors: -</u>**

Non Dafydd, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Keith Roberts, Arfon Wyn

**<u>Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations</u>**

Parch/Rev Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales); Colette Owens (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church); Parch/Rev Deborah Stammers (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales); Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/ Union of Welsh Independents (sedd wag/vacant seat); Huw Owen (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales); Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church (sedd wag/vacant seat); Islam (sedd wag/vacant seat); Tystion Jehova/Jehova Witness (sedd wag/vacant seat)

**<u>Athrawon/Teachers</u>**

Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Owain Roberts (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

**<u>Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members</u>**

Rheinallt Thomas

**<u>Cynrychiolydd Anghrefyddol/Non-Religious Representative</u>**

Sarah Lloyd (Dyneiddwyr/Humanists)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYS a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025.

**Materion yn codi o'r cofnodion: -**

- Bod copi o fersiwn terfynol Adroddiad Blynyddol CYS Ynys Mon ar gyfer 2024/25 yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.
- Yr Uwch Reolwr, Sector Cynradd, (Clerc y CYS) yn ysgrifennu at CCYSAGauC i ofyn i'w Weithrediad ystyried darparu templed i annog pob CYS i fabwysiadu amcanion cenedlaethol, lle gellid ychwanegu amcanion lleol i gynlluniau datblygu'r CYSAGau i nodi a rhannu arfer da.
- Yr Uwch Reolwr, Sector Cynradd (Clerc y CYS) i gysylltu a'r 4 enwad i ofyn iddynt enwebu aelod o'u Grwp crefyddol i'w cynrychioli ar y CYS.

**3 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CCYSAGAUC)** (Tudalennau 7 - 16)

Cyflwyno, er gwybodaeth gofnodion cyfarfod CYSAGauC a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2025.

**4 DYNEIDDIAETH - MANTEISION CYNNWYS ARGYHOEDDIADAU ATHRONYDDOL NAD YDYNT YN GREFYDDOL YN Y CWRICWLWM CGM**

Derbyn cyflwyniad gan Luke Donnellan, Cyfarwyddwr Deall Dyneiddiaeth, Dyneiddwyr y DU.

**5 CYNLLUN GWEITHREDU CYS YNYS MÔN 2025/26** (Tudalennau 17 - 26)

- Hybu CYS
- Datblygu Crefydd, Gwerthoedd ac Moeseg
- Datblygu Addoli ar y Cyd

**6 RHEOLI'R DIDDYMU NEU'R HAWL I DYNNU'N ÔL O CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM)** (Tudalennau 27 - 30)

I drafod a chytuno ar y gefnogaeth y mae ysgolion eu hangen i reoli'r newid deddfwriaethol hwn yn effeithiol.

**7 CYLCHLYTHYR CYS YNYS MÔN**

I drafod y posibilrwydd o gylchlythyr CYS Ynys Môn.

## 8 **UNRHYW FATERION PENODOL I'R CYSAG**

Materion i’r cyfarfod nesaf.

## 9 **CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfafod nesaf y CYS ar 9 Gorffennaf 2026 am 2:00 pm.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS)

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2025

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Arfon Wyn (Is-gadeirydd)

**Yr Awdurdod Addysg**

Y Cynghorwyr Dylan Rees, Keith Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol**

Y Parchedig Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Mrs Collette Owens (Yr Eglwys Gatholig)
Y Parchedig Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru) (tan 3:10 pm)

**Cynrychiolwyr Athrawon**

Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch) (tan 3:00 pm)
Mr Owain Roberts (Ysgol Cybi) (tan 3:00 pm)

**Aelod Cyfetholedig**

Mr Rheinallt Thomas

**WRTH LAW:** Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Mr Owen T Davies (Uwch Reolwr, Sector Cynradd) (Clerc i'r CYS)
Mr Phil Lord (Ymgynghorydd Crefydd Gwerthoedd a Moeseg Annibynnol)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgorau)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg)
Mrs Joanna Thomas (Esgobaeth Bangor, Yr Eglwys yng Nghymru)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Gwilym O Jones
Sarah Lloyd (Y Dyneiddwyr)

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10

Gorffennaf 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar y canlynol: -

**Materion yn codi o'r cofnodion: -**

- Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu at Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Throseddau Casineb Heddlu Gogledd Cymru ar ddau achlysur i wahodd y Swyddog i gyfarfod o'r CYS ond nid yw wedi derbyn ymateb hyd yma.
- Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr, Sector Cynradd ei fod wedi ysgrifennu at Estyn i ofyn am gysondeb ganddo ynglŷn â'i broses adrodd ac i ddarparu sylwadau ar ysgolion sydd wedi cael canlyniadau cadarnhaol yn eu hadroddiadau Estyn. Dywedodd ei fod yn aros am ymateb gan Estyn. Nodwyd, pan fydd cyfle, y bydd cynrychiolydd o Estyn yn cael ei wahodd i gyfarfod o'r CYS.
- Nodwyd bod angen newid Ysgol Rhyd y Llan yn y cofnod yn gysylltiedig ag Eitem 4, i Ysgol y Graig.
- Cyfeiriwyd at y sylw gan yr Ymgynghorydd CGM yn gysylltiedig ag Eitem 4 ar yr agenda a oedd yn nodi *"bod yr hawl i dynnu'n ôl yn berthnasol i CGM"*, sydd yn anghywir. Nodwyd bod yr hawl i dynnu'n ôl wedi dod i ben ers i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym.

## 3. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU (CCYSAGauC)

- Cyflwynwyd adroddiad ar weithgareddau CCYSAGauC yn ystod 2024/25 a nodwyd yr wybodaeth.

- Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2024/25 a nodwyd yr wybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GYFER 2024/25

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft y CYS ar gyfer 2024/25 am sylwadau ac fe'i cymeradwywyd gan y CYS heb unrhyw newidiadau pellach.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol CYS Ynys Môn ar gyfer 2024/25, fel y'i cyflwynwyd.**
- **Bod copi o fersiwn terfynol Adroddiad Blynyddol CYS Ynys Môn ar gyfer 2024/25 yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.**

## 5. CYFARWYDDWR ADDYSG ESGOBAETH BANGOR

Rhoddodd Mrs Joanna Thomas gyflwyniad ar ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Bangor ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru.

Adroddodd Mrs Thomas bod ei gwaith yn cynnwys cefnogi ysgolion eglwysig ledled Ynys Môn. Dywedodd ei bod wedi ymweld ag Ysgol Cybi yng Nghaergybi ac Ysgol Santes Dwynwen yn Niwbwrch.

Cyfeiriwyd at yr Arolygon Adran 50 ar gyfer Ysgolion Eglwysig yng Nghymru. Eglurodd Mrs Thomas bod rhaglenni peilot wedi cael eu cynnal y tymor diwethaf ac y bydd yr hyfforddiant i arolygwyr yn dechrau fis nesaf. Dywedodd bod Penaethiaid y ddwy ysgol yr ymwelodd â hwy wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r broses a rhannu arfer da gydag ysgolion eraill.

Nodwyd y bydd adroddiadau'r rhaglenni peilot ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru, gyda'r nod o ddod ag athrawon ynghyd i weithio ar adnoddau Cymraeg. Rhoddwyd pwyslais ar gynnal ansawdd mewn ysgolion a sicrhau bod addoli ar y cyd a'r ethos Cristnogol yn cael ei ddatblygu.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Thomas am roi mewnwelediad i'w gwaith ac am ei chyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cyflwyniad.**

## 6. CYNLLUN DATBLYGU CYS YNYS MÔN AR GYFER 2025/26

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM bod rhaid i bob CYS ddarparu adroddiad blynyddol i adlewyrchu ar ei fusnes. Bydd y CYS yn cynghori Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob CYS ei gynllun datblygu ei hun.

Nodwyd bod y drafodaeth ledled Cymru wedi canolbwyntio ar y posibilrwydd o ganiatáu i'r CYSau ddatblygu eu hamcanion eu hunain, ac o ganlyniad bydd camau gweithredu mewn adroddiadau blynyddol yn canolbwyntio ar gynnydd y CYSau tuag at gyflawni eu cynlluniau datblygu. Yr amcan gyntaf i CYS Ynys Môn fydd sicrhau bod aelodaeth y CYS yn cwrdd â'r gofynion.

Amlygwyd mai prif gyfrifoldeb y CYS yw cefnogi ysgolion a datblygu CGM, a gellid defnyddio hyn fel amcan arall ar gyfer y CYS, drwy gymryd camau i gefnogi a datblygu ysgolion. Awgrymwyd y gallai'r cynrychiolwyr ffydd rannu cofnodion y CYS, adroddiadau blynyddol ayb., i barhau â'r drafodaeth ynglyn â'r modd y gallai'r sefydliadau sy'n cefnogi'r CYS gefnogi CGM mewn ysgolion.

Yn drydydd, gofynnwyd sut y gallai'r CYS gefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion? Awgrymwyd y byddai Cylchlythyr yn un ffordd dda o symud ymlaen ynghyd â Rhwydwaith ar gyfer Penaethiaid Adran yn y sector Uwchradd, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu i gefnogi dysgu proffesiynol.

Nodwyd bod aelodau'r CYS wedi arsylwi sesiynau addoli ar y cyd ac y gallai ystyried arsylwi gwasanaethau neu wersi CGM? Byddai cael banc o adnoddau a rhestr o bobl sydd wedi cael eu hyfforddi ac sy'n fodlon mynd i ysgolion i gynnal gwasanaethau hefyd yn ffordd dda o gefnogi ysgolion.

Trafodwyd a ddylai CCYSAGauC gynhyrchu templed i annog y CYSau i fabwysiadu amcanion cenedlaethol ac ychwanegu amcanion lleol yn eu cynlluniau datblygu er mwyn nodi arfer da ar gyfer ardaloedd eraill? Cynigwyd a derbyniwyd y dylai'r CYS ysgrifennu'n ffurfiol at CCYSAGauC i ofyn i'w Weithrediaeth drafod y mater maes o law.

Cyfeiriodd un o'r cynrychiolwyr athrawon at bwynt gweithredu posib ar gyfer y dyfodol yn gysylltiedig â chydweithio rhwng y CYS ac ysgolion uwchradd yn benodol.

Dywedodd bod disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 yn cwblhau gwaith cwrs a thasg nad yw'n arholiad, sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer athrawon a disgyblion.  Pob mis Medi, mae CBAC yn cyflwyno dau gwestiwn i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 ac mae'n rhaid iddynt chwilio am dystiolaeth, sy'n heriol iddynt, gyda'r athrawon yn eu harwain drwy'r gwaith.  Awgrymodd y gallai'r CYS roi ei farn ar y pwnc a gyflwynir yn flynyddol.

Awgrymodd y CYS y gallai fod yn bwynt cyswllt diddorol ar gyfer safbwyntiau crefyddol ac y gellid ei rannu ag ysgolion Ynys Môn sy'n cwblhau'r dasg.  Gellid hefyd ei gynnwys yn y Cylchlythyr a'i ddefnyddio fel ffynhonnell wybodaeth ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a'i ymgorffori i waith y cynrychiolwyr ffydd.

Estynnwyd gwahoddiad i'r CYS i Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yng Nghaergybi i arsylwi sesiwn addoli ar y cyd.   Awgrymwyd y gallai'r aelod CYS ysgrifennu erthygl fer yn dilyn yr ymweliad a'i gynnwys yn y Cylchlythr.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cefnogi cynllun datblygu'r CYS.**
- **Bod yr Uwch Reolwr, Sector Cynradd (Clerc y CYS) yn ysgrifennu at CCYSAGauC i ofyn i'w Weithrediaeth ystyried darparu templed i annog pob CYS i fabwysiadu amcanion cenedlaethol, lle gellid ychwanegu amcanion lleol i gynlluniau datblygu'r CYSAGau i nodi a rhannu arfer da.**

## 7. CULHAM ST GABRIEL – CAIS AM GRANT

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM ei fod wedi gwneud cais am gyllid grant gan Culham St Gabriel yn gysylltiedig â Phrosiect Cynllunio CGM Clwstwr Cynradd Caergybi. Dywedodd bod y clwstwr wedi bod yn awyddus i gwrdd a datblygu set o adnoddau i'w rannu gydag ysgolion ledled Ynys Môn.  Cafodd cais hwn ei wrthod.

Cysylltwyd eto â Llywodraeth Cymru ynglyn â chwricwlwm a yrrir gan brosesau, lle mae disgyblion yn chwilio am wybodaeth i ateb cwestiynau.  Gobeithir y gellir defnyddio CGM fel fframwaith i gwrdd â'r strwythur am gyllid gan  Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd at 'adnodd', un o gyrff Llywodraeth Cymru, sy'n comisiynu adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru.  Nodwyd bod  amserlen y sefydliad ar gyfer gwneud cais am adnoddau wedi pasio.

Pwysleisiodd y CYS bwysigrwydd dysgu hanes Seintiau lleol yn ein hysgolion.  Nodwyd y bydd Mudiad Addysg Cymru yn cyhoeddi llyfr dwyieithog ar Seintiau a thraddodiadau yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 8. CYLCHLYTHYR Y CYS

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd CGM at gylchlythyr CYSAG Sir Ddinbych a Chonwy yn ystod Eitem 8 ar yr agenda a gofynnodd am farn y CYS ar gynhyrchu Cylchlythyr tebyg ar gyfer Ynys Môn i hyrwyddo gwaith y CYS ac ysgogi athrawon.  Trafodwyd a

fyddai'n well cael Cylchlythyr ar gyfer ysgolion, eglwysi ayb Gogledd Cymru neu Ynys Môn.

Dywedodd y CYS y byddai'n well gan ei aelodau gael Cylchlythyr unigryw ar gyfer Ynys Môn. Awgrymwyd y gellid cyflwyno aelodau'r CYS dros gyfres o gylchlythyrau. Dylai'r Cylchlythyr gynnwys gwybodaeth wreiddiol a lleol yn gysylltiedig ag Addysg Grefyddol, yn cynnwys gwybodaeth a gyflwynir gan ysgolion yn ystod cyfarfodydd y CYS ac ymweliadau gan gynrychiolwyr y CYS.

Mynegwyd pryder bod ysgolion yn poeni am ddilysrwydd yr wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Bydd rhaid sicrhau bod yr wybodaeth yn y Cylchlythyr yn gywir, deniadol a rhywbeth y gall ysgolion ac athrawon ei ddefnyddio.

Dywedodd cynrychiolydd athrawon y CYS y dylai'r Cylchlythyr fod yn berthnasol i ysgolion cynradd ac uwchradd. Eglurodd y bydd rhaid ei gynllunio'n ofalus yn ystod y flwyddyn gyntaf i sicrhau ei fod yn berthnasol i'r gynulleidfa. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n ddefnyddiol clywed barn ar wahanol grefyddau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cytuno i gynhyrchu Cylchlythyr ar gyfer CYS Ynys Môn.**
- **Bod y Cylchlythyr yn cael ei adolygu'n gyfnodol.**

*(Fe wnaeth Mrs Mefys Jones-Edwards a Mr Owain Roberts adael y cyfarfod am 3:00 pm)*

*(Fe wnaeth y Parchedig Neil Ridings adael y cyfarfod am 3:10 pm)*

## 9. CYNHADLEDD EFTRE (Fforwm Athrawon Addysg Grefyddol Ewrop) 2025

Adroddodd yr Ymgynghorydd CGM ei fod wedi mynychu Fforwm Athrawon Addysg Grefyddol Ewrop yn ddiweddar. Cynhaliwyd y fforwm mewn coleg hyfforddi Lutheraidd ym Mwdapest, lle gwnaeth gyfarfod â phobl sy'n gweithio ym maes addysg grefyddol ledled Ewrop. Amlygodd sut y mae Addysg Grefyddol/CGM yn wahanol iawn yn Ewrop o'i gymharu â'r DU; yn y wlad yma mae Addysg Grefyddol wedi symud ymlaen yn y 25 i 30 mlynedd diwethaf, lle mae'r rhan fwyaf o Ewrop wedi aros yn ei unfan fwy neu lai. Eglurodd bod Addysg Grefyddol yn Ewrop yn enwadol yn bennaf, ac mae eglwysi a sefydliadau crefyddol yn datblygu'r cwricwlwm y mae'r ysgolion yn ei gyflwyno. Nodwyd bod credoau'n cael eu dysgu o fewn gwahanol sefydliadau crefyddol: yn y Ffindir mae Cristnogaeth Lutheraidd yn cael ei ddysgu mewn ysgolion, tra bo Mwslimiaid yn dewis Addysg Grefyddol Islamaidd, yn hytrach na delio â sawl pwnc dan un pennawd fel CGM.

Cafwyd cyflwyniad ar gwestiynu. Yr athrawon sy'n gofyn y cwestiynau yn y dosbarth ac nid y disgyblion. Roedd yn amlwg bod athrawon yn gofyn cwestiynau i brofi gwybodaeth y disgyblion yn hytrach na'u dealltwriaeth. Doedd neb yn gofyn 'Pam?' yn aml iawn. Amlygodd yr Ymgynghorydd CGM mai'r nod yw cael disgyblion i fod yn feddylwyr beirniadol a gofyn mwy o gwestiynau.

Cafwyd trafodaeth ar gwestiynau dirfodol, cwestiynau mawr bywyd, a sut i ddod o

hyd i atebion i gwestiynau anodd ymysg cenhedlaeth bryderus. Amlygwyd bod ein dysgwyr yn cael eu hamddifadu o sgiliau i'w galluogi i drafod y pethau mawr. Nodwyd bod CGM yn darparu llwyfan i helpu dysgwyr ddatblygu iaith a gwneud synnwyr o'r cwestiynau hyn.
Dywedodd yr Ymgynghorydd CGM bod ei ymweliad â Bwdapest wedi bod yn agoriad llygaid a'i fod yn berthnasol i athrawon yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yng nghrynodeb yr Ymgynghorydd CGM ar y Fforwm Athrawon Addysg Grefyddol Ewrop 2025 yn Hwngari.**
- **Bod crynodeb o'r ymweliad uchod yn cael ei gynnwys yng Nghylchlythyr y CYS.**

## 10. UNRHYW FATERION PENODOL I'R CYS

Adroddodd y Cadeirydd bod pedair sedd wag ar y CYS i gynrychioli'r enwadau crefyddol a ganlyn: -

- Undeb Annibynwyr Cymru;
- Yr Eglwys Fethodistaidd;
- Islam;
- Tystion Jehovah.

Dywedodd yr Uwch Reolwr, Sector Cynradd y byddai'n ymchwilio i'r mater ac adrodd yn ôl i'r CYS yn ei gyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Uwch Reolwr, Sector Cynradd (Clerc y CYS), yn cysylltu â'r 4 enwad i ofyn iddynt enwebu aelod o'u Grŵp crefyddol i'w cynrychioli ar y CYS.**

## 11. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y CYS yn cael ei gynnal ar 10 Chwefror 2026 am 2:00 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:25 pm

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cymdeithas CYSAGau Cymru***
***Cyfarfod Bro Morganwg***
***Cyfarfod rhithwir trwy Zoom***
***19 Tachwedd 2025***
***10.00 yb – 1.05 yp***

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>Rheinallt Thomas (RT)<br>Phil Lord (PL)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Chris Abbas (CA)<br>Kathy Riddick (KR)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr**<br>Alice Parry (AP)<br>Edward Evans (EE)<br><br>**Caerffili**<br>Jayne MacFarlane (JM)<br>Sarah McErlaine (SM)<br>Eifion ap Llwyd Dafydd (ELD)<br><br>**Caerdydd**<br>Rheinallt Thomas (RT)<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br><br>**Ceredigion**<br>Rhianydd James (RJ)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL) | **Sir Ddinbych**<br>Phil Lord (PL)<br>Jennie Downes (JD)<br><br>**Sir y Fflint**<br>Vicky Barlow (VB)<br>Trevor Dobson (TB)<br>Dave Mackie (DM)<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful**<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Fynwy**<br>Louise Brown (LB)<br>Rachel Buckler (RB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot**<br>Nia Jenkins (NJ)<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd**<br>Huw Stephens (Ysgol Uwchradd) | **Powys**<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Matthew Maidment (MM)<br><br>**Torfaen**<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Bro Morganwg**<br>Naomi Marshallsea (NM)<br>Elizabeth Jones (EJ)<br>Tyler Saunders (TS)<br>Fran Wright (FW)<br>Rhiannon Birch (RB)<br><br>**Wrecsam**<br>Tania ap Siôn (TS)<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**CSC**<br>Donna Graves (DG)<br><br>**EAS**<br>Hayley Jones (DG)<br><br>Mike Head<br><br>Alison | **PYCCGM**<br>Phil Lord (PL)<br>Donna Graves *(DG)*<br><br>**EFTRE**<br>Phil Lord (PL)<br><br>***Arsylwyr***<br><br>**CBAC**<br>Andrew Pearce (AP)<br>Chris Owens (CO)<br>Paul Morgan (PM)<br><br>**ESTYN**<br>Gwawr Meirion (GM)<br><br>**REC**<br>Kathy Riddick (KR)<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**Eglwys yng Nghymru**<br>Lisa Taylor (LT)<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br>Angella Keller (AK)<br><br>**CLILC**<br>Elin Stock (ES)<br><br>**Cymwysterau Cymru (CC)**<br>June Jenkins (JJ)<br><br>**Rhwydwaith Rhyng-ffydd**<br><br>**ADEW**<br><br>**Cofnodion (o'r recordiad)**<br>Jo Nicholls (JN)<br><br>**Cyfieithydd:**<br>Sioned Jones (SJ) |

DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod**

**1. Cyflwyniad a chroeso**

Croesawodd EE yr aelodau i gyfarfod yr hydref a diolchodd i Awdurdod Lleol Bro Morganwg a'i GYSAG am gynnal y cyfarfod. Croesawodd EE y cynrychiolwyr o Fro Morganwg; y Cynghorydd Naomi Marshallsea, Maer Bro Morganwg, Liz Jones, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau a Rhiannon Birch, Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg.

Rhoddodd y Cynghorydd Marshallsea y croeso canlynol:
Rwy'n falch iawn ac yn ei theimlo'n anrhydedd cael agor cyfarfod heddiw a chroesawu Cymdeithas CYSAGau Cymru i awdurdod lleol Bro Morganwg. Ni sy'n lletya'r cyfarfod heddiw, a hoffwn drosglwyddo'r awenau i Liz Jones, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, a fydd yn eich croesawu chi i gyd heddiw.

Rhoddodd Liz Jones y cyflwyniad canlynol:
Mae heddiw yn dwyn ynghyd gymuned sydd wedi ymrwymo'n ddwfn i ffurfio profiadau addysgol ein plant a'n pobl ifanc. Cymuned sy'n deall arwyddocâd dwfn y cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn ein cenhadaeth genedlaethol ar gyfer addysg. Mae CGM yn ymwneud â mwy na chynnwys pwnc yn unig. Mae'n ymwneud â gweithredu ein pwrpas moesol, creu ysgolion cynhwysol sy'n wirioneddol groesawgar, yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn awyddus i ddarparu'r amgylcheddau dysgu gorau posibl, lle mae pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir, eu credoau neu eu profiadau bywyd, yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu parchu a'u bod yn gallu ffynnu mewn byd lle mae hunaniaethau, credoau a gwerthoedd yn croestorri mewn ffyrdd cymhleth. Nid yw ein gwaith erioed wedi bod yn bwysicach, a thrwy gwricwla meddylgar, wedi'u cynllunio'n dda, gallwn feithrin chwilfrydedd yn hytrach nag ofn, empathi yn hytrach na rhaniad, a dealltwriaeth yn hytrach na thybio. Rydym yn helpu dysgwyr i wynebu gwahaniaeth gyda hyder, ymgysylltu mewn deialog gyda pharch a chyfrannu at gymunedau gyda charedigrwydd. Dyma hanfod addysg gynhwysol, ac mae'n gyfrifoldeb yr ydym i gyd yn ei rannu. Yn ganolog i hyn mae rôl greiddiol ein hawdurdodau lleol ein hunain, ac yn ddiamau, mae'r arweiniad, y canllawiau a'r ymrwymiad cadarn yn galluogi ysgolion i dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Heb arbenigedd partneriaeth ac eiriolaeth, ni ellid gwireddu dyheadau CGM yn ymarferol. Heddiw dathlwn y pwrpas cyffredin hwnnw. Credaf ei fod yn gyfle i fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd gennym.

Rwyf am ddiolch i bawb am yr angerdd, yr ymroddiad a'r proffesiynoldeb rydych chi i gyd yn eu cynnig i'r gwaith hanfodol hwn, oherwydd gyda'n gilydd, rydym yn llunio nid yn unig cwricwlwm, ond Cymru sy'n fwy deallus, yn fwy cynhwysol ac yn fwy tosturiol.

Diolchodd EE i Fro Morgannwg am gynnal y digwyddiad.

**2. Myfyrdod tawel**

Arweiniodd EE fyfyrdod ar greu'r byd a pharhaodd gyda myfyrdod ar adegau o anobaith a diolch, gan bwysleisio pwysigrwydd diolchgarwch.

**3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Keith Evans, John Mitson ac Emily Lloyd.

**4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, Zoom (2 Gorffennaf 2025)**

Adolygwyd y cofnodion a dylid eu diwygio fel a ganlyn:

- Ychwanegu Jennifer Harding-Richards, Sir Gaerfyrddin at yr ymddiheuriadau.
- Dywedodd RT fod Non Dafydd (ND) yn Gynghorydd Sir ac yn Gadeirydd CYSAG / CYS Ynys Môn, ac nid yn ymgynghorydd fel y nodwyd yn y cofnodion.
- Cadarnhawyd Rhys Evans fel aelod o CYSAG / CYS Caerffili.

Gyda'r gwelliannau hyn wedi'u gwneud, cynigiodd RS ac eiliodd PL fod y cofnodion yn gofnod cywir.

Bydd EE, y Cadeirydd, yn llofnodi'r cofnodion i nodi mai dyma'r fersiwn derfynol ac yn darparu'r copi wedi'i lofnodi hwn i AP i'w ffeilio.



DRAFT

DRAFT

## 5. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf (2 Gorffennaf 2025)

Dim materion newydd yn codi y tu allan i agenda'r cyfarfod presennol.

## 6. PYCCGM

**Cyflwyniad ar TGAU Astudiaethau Crefyddol**
Rhoddodd Chris Owens, CBAC, drosolwg o'r TGAU astudiaethau crefyddol, sef manyleb etifeddol 2017, gan dynnu sylw at bynciau craidd Cristnogaeth a Christnogaeth Gatholig gydag Islam ac Iddewiaeth yn cynnwys y niferoedd mwyaf o fyfyrwyr ar gyfer crefyddau'r byd a astudiwyd. Rhannodd CO ystadegau ar rifau myfyrwyr a niferoedd canolfannau, dros y 6 blynedd diwethaf, gan bwysleisio pwysigrwydd y cymhwyster.
Mae CBAC yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru (LlC) a Chymwysterau Cymru. (CC). Mae Cristnogaeth neu Gristnogaeth Gatholig yn parhau i fod yn ganolog i'r fanyleb newydd; gyda phob myfyriwr i astudio un o grefyddau'r byd. Yr un gwahaniaeth allweddol rhwng yr hyn a fydd bellach yn gymhwyster etifeddol a'r cymhwyster newydd yw'r ffocws ar Asesiad Di-arholiad.
Codwyd cwestiwn ynghylch y rhesymau dros y dirywiad yn y nifer sy'n astudio Sikhiaeth. Ymatebodd CO nad oes data ar gael i esbonio'r gostyngiad.
JHR: Gofynnwyd a oes unrhyw ddata i gymharu ceisiadau TGAU AG gyda TGAU daearyddiaeth a hanes. Dywedodd CO fod data ar gael ar y rhyngrwyd ac y byddai'n ymchwilio i hyn.
LB: Mynegodd bryder ynghylch y ffaith nad yw'r TGAU byr ar gael, a oes unrhyw bosibilrwydd y bydd hwnnw yn cael ei ailgyflwyno o gwbl?
CO: Penderfynodd Llywodraeth Cymru dynnu'r cwrs byr TGAU yn ôl. Bu ymgynghoriad.
RS: Wedi'i gadarnhau gyda datblygiad cymwysterau newydd, na fydd cyrsiau byr yn bodoli mewn unrhyw bwnc o fewn cwricwlwm Cymru.
MM: Gofynnwyd a oes gan CBAC gysylltiadau â'r BBC o ran 'Bite Size BBC', ac a yw CBAC yn debygol o gynhyrchu adnoddau ar gyfer y fanyleb newydd?
CO: Oes, mae gan CBAC gysylltiadau â'r BBC ac mae'r BBC yn bwriadu datblygu adnoddau newydd.

**Cyflwyniad ar Astudiaethau Crefyddol Safon UG a Safon Uwch**
Trafododd Andrew Pierce, CBAC, effaith COVID-19 ar niferoedd y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyfer astudiaethau crefyddol Safon UG a Safon Uwch a'r adferiad dilynol.
Tynnodd AP sylw at boblogrwydd Bwdhaeth ar lefel A ac yna Cristnogaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhaeth a rhannodd ystadegau ar ganlyniadau lefel A, gan nodi'r cyfraddau A seren a gyflawnwyd ar ôl COVID.
Diolchwyd i athrawon Addysg Grefyddol am eu hymroddiad a'u gwaith caled wrth gyrraedd y canlyniadau hyn.
Diolchodd EE i CO ac AP am eu cefnogaeth yng nghyfarfodydd CCYSAGauC.

**CAM GWEITHREDU:** Y ddau gyflwyniad i'w hanfon ymlaen at LJ i'w dosbarthu i aelodau Pwyllgor CCYSAGauC.

## 7. Materion Llywodraeth Cymru [LlC]

<u>Cyfarfodydd tymhorol arferol gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru (LlC)</u>

Cynhaliwyd cyfarfod ar 5 Tachwedd . Roedd yn gyfarfod llawn iawn a fynychwyd gan gynrychiolwyr CCYSAGauC: EE RS, LJ, AP a TaS. Cynrychiolwyr y gweithgor oedd Sam Clinton, Clare Hubberfield a Pauline Smith.
Trafodwyd y pwyntiau canlynol ar yr agenda:

1. **Adroddiadau Blynyddol CYSAG** - nododd y Gweithgor fod gwahaniaethau yn yr adroddiadau a dderbyniwyd. Cytunodd y Gweithgor i ailysgrifennu'r canllawiau ar gynnwys yr adroddiadau blynyddol. Mae hyn bellach yn nwylo'r Gweinidog. Cytunodd y Gweithgor i gysylltu â CCYSAGauC a PYCCGM.
2. **Ailgychwyn y gwaith gyda Max White** - sut i gynyddu nifer yr athrawon Addysg Grefyddol a sut i gadw athrawon. Mae LJ mewn cysylltiad â MW a bydd yn dilyn i fyny gyda mwy o fanylion pan fyddant ar gael.

3. **Cymorth cenedlaethol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a'r asesiad lleol** - mae LlC yn agor hyfforddiant i bartneriaid ac awdurdodau lleol. Bydd LlC yn rhannu rhagor o wybodaeth, bydd cyfle gan CCYSAGauC i ddod yn bartner.
4. **Panel cymeradwyo ar gyfer dysgu proffesiynol** - bydd cymeradwyaeth yn parhau gan Lywodraeth Cymru ond mae angen ymchwilio ymhellach i sut y bydd yn digwydd. Mae CCYSAGauC yn aros am fwy o fanylion.
5. **Ysgolion yn cyhoeddi eu darpariaeth ar gyfer CGM** - Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw ganllawiau penodol. Penderfyniad yr ysgolion yw cyhoeddi ai peidio. Awgrymodd Llywodraeth Cymru ei bod yn arfer da rhannu gwybodaeth gyda rhieni.
   Atgoffodd RS y grŵp o'r sefyllfa gyfreithiol bod Cylchlythyr 10/94 yn dal i fodoli ond dim ond yn berthnasol i'r agweddau hynny nad ydynt yn dod o dan y ddeddfwriaeth newydd. Mae addoli ar y cyd yn dal i fodoli o fewn Cylchlythyr 10/94, mae bron popeth arall sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a CYSAG / CYSau o dan y ddeddfwriaeth newydd.
6. **Cwynion am CGM a'r hawl i dynnu'n ôl a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru** - Cydnabu Llywodraeth Cymru fod gwybodaeth anghywir wedi'i rhannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i bob cwyn yn unigol mewn ffordd ffeithiol, gan ddyfynnu'r canllawiau. Gwnaeth LlC sylw bod ysgolion yn ymateb i gwynion mewn ffordd gadarnhaol. Gwnaeth LlC yn glir bod yn rhaid i ALlau ymateb yn eu ffordd eu hunain.
   Cynhelir cyfarfod gyda PL a Sam Clutton i barhau â'r drafodaeth ar ymdrin â chwynion.
7. **CGM gorfodol i flynyddoedd 10 ac 11** – soniodd CCYSAGauC wrth y Llywodraeth fod dau o gyrff dyfarnu'r gyfres sgiliau wedi gofyn i CCYSAGauC roi adborth ar gynnwys yr unedau sy'n berthnasol i CGM. (Bydd LJ yn trafod hyn yn Eitem 9). Mae CCYSAGauC wedi codi pryderon ynghylch:
   - Rhywfaint o'r cynnwys a'r negeseuon dryslyd nad ydynt yn berthnasol i CGM.
   - Y ffaith bod yr unedau sgiliau ar gyfer CGM yn brin iawn yn y gyfres gyfan.
   - Y ffaith nad oes rhaid i ysgolion gynnig CGM.
   - Y risg na fydd ysgolion yn mynd i'r afael â'r gofyniad gorfodol yn ei gyfanrwydd a'r goblygiadau dilynol.
   - Os nad yw CGM gorfodol yn digwydd mewn ysgolion, pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio i brofi'r pryderon hyn?
   - Hawl myfyrwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 i barhau i astudio CGM.
   - Mae'r mesurau perfformiad newydd sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ar ffurf drafft. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i CCYSAGauC am adborth (yn y flwyddyn newydd mae'n debyg). Ystyriwch a oes rhywbeth yno ar gyfer y gofynion gorfodol yn y cwricwlwm a CGM ym mlynyddoedd 10 ac 11 y gall ysgolion adrodd yn ôl arno. Mae'r drafodaeth hon yn parhau.

TD: Pa mor fawr yw problem y cwynion am yr hawl i dynnu'n ôl?
RS: Ni ddarparwyd unrhyw ffigurau ond gan nad yw Llywodraeth Cymru eisiau cyhoeddi ymatebion safonol, mae'n awgrymu mai nifer fach o gwynion sydd.
HS ac RB: Mynegi eu pryder ynghylch addysgu CGM blynyddoedd 10 ac 11 a pha mor anodd fydd hi i ysgogi dysgwyr.
RS: Cytuno, a chadarnhawyd bod Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn bryderus iawn ac yn parhau i drafod hyn gyda LlC. Awgrymwyd y byddai'n dda cael tystiolaeth gan CYSAGau ar yr hyn sy'n digwydd yn lleol. Soniodd RS fod CCYSAGauUC ar y Cyfeiriadur o Ymgynghorwyr ar gyfer y cyrff dyfarnu sy'n datblygu'r setiau sgiliau.
Diolchodd RS i RB am rannu'r llythyrau y mae wedi'u hanfon at Lywodraeth Cymru. Mae CCYSAGAUC wedi anfon pryderon RB yn uniongyrchol at Sam Clutton ac yn aros am ymateb pellach ganddi. Mae'n drafodaeth barhaus.
LJ: Cadarnhaodd mai cyfrifoldeb y CYSAG yw cynghori'r ALl a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cynnal y monitro. Gall CYSAGau gynghori'r awdurdod lleol ar yr hyn y dylent fod yn ei wneud, a'r ALl ddylai gynnig y gefnogaeth i ysgolion a monitro CGM gorfodol. Os oes unrhyw broblemau gyda'r awdurdod lleol yn methu â gwneud hynny e.e. bod heb ymgynghorydd pwrpasol, ac ati, angen i'r CYSAG drafod hyn gyda'r ALl. Os oes angen, gall CCYSAGauC roi cefnogaeth i GYSAGau.

**8. Ymchwil a gefnogir gan CCYSAGauC - Prosiect Llais yr Athro: CGM yn y Cwricwlwm i Gymru**
Mae arolwg prosiect llais yr athro ar CGM yn cael ei gefnogi gan CCYSAGauC mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, mae CCYSAGauC wedi bod yn hyrwyddo a dosbarthu'r arolwg ac yn ail, bydd CCYSAGauC yn helpu i ledaenu'r canfyddiadau ledled Cymru.
Nod yr arolwg yw cael cipolwg ar sut mae athrawon yng Nghymru sy'n ymwneud â CGM yn ymgysylltu â'r newidiadau cwricwlwm yn y cam cynnar hwn o gyflwyno'r cwricwlwm. Gobeithir y bydd yr ymchwil yn

DRAFT

cyfrannu at ddeialog broffesiynol a dysgu proffesiynol. Mae'n astudiaeth ansoddol anwythol a bydd yn llunio cwestiynau ymchwil yn y dyfodol yn lleol ac yn genedlaethol.
Mae adroddiad dwyieithog llawn i'w gyhoeddi ar ddiwedd tymor y Gwanwyn, ynghyd â dwy neu dair erthygl mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.
Bydd cyflwyniadau hefyd mewn cynadleddau a symposia yng Nghymru a thu hwnt i Gymru. Mae tri eisoes wedi cael eu cynnal:

- 23 Mehefin 2025 - Cymuned ddysgu ymchwil sy'n cyfarfod yn rheolaidd yng nghadeirlan Lerpwl.
- 28 Gorffennaf 2025 - Seminar Rhyngwladol ar Addysg Grefyddol a Gwerthoedd
- 9fed Medi 2025 - Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain

Mae'r arolwg wedi'i gau ac mae dadansoddiad cyffredinol o'r ymatebion caeedig yn ôl math o ysgol wedi'i gynnal. Ar hyn o bryd mae'r cwestiynau agored yn cael eu codio a'u dadansoddi.
Bydd lansiad ar-lein o'r adroddiad ar gyfer aelodau CCYSAGauC a'r rhai sy'n gysylltiedig â CCYSAGAUC yn dechrau yn yr wythnos sy'n dechrau 23 Mawrth 2026. Bydd gwahoddiad i seminar ar-lein yn cael ei anfon at y CYSAGau a'r rhai sy'n gysylltiedig â CCYSAGauC.

**9. Cymwysterau**
Diolchodd June Jenkins (CC) i CCYSAGauC am y cyfle i adrodd yn y cyfarfod.
Adroddodd JJ y canlynol:

Y chwe chorff dyfarnu a fydd yn cynnig holl unedau'r Cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith yw:

- Agored Cymru
- King's Trust
- Open Awards
- Pearson
- TLM
- CBAC

Mae'r cyrff dyfarnu wedi mynd trwy broses gadarn i ddangos y gallant gynnig y cymwysterau. Mae'r cymwysterau wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r amserlen ar gyfer eu cyflwyno yn amrywio yn dibynnu ar y corff dyfarnu. Bydd CC yn derbyn y cyflwyniadau cyntaf o nawr tan ddiwedd mis Mawrth 2026. Bydd CC yn darparu adborth rheoleiddiol, a fydd yn fanwl iawn, a bydd yn egluro lle nad oes cydymffurfiaeth â'r meini prawf cymeradwyo.
Mae'r holl gymeradwyaethau i'w gwneud erbyn mis Medi 2026. Mae manylebau ar gyfer y cymwysterau i'w cyhoeddi ym mis Medi 2026, gan ganiatáu blwyddyn i ysgolion a chanolfannau gynllunio a deall y fanyleb. Mae popeth ar y trywydd iawn ar hyn o bryd.

O ran y cymwysterau sy'n bodoli ar hyn o bryd, rydym wedi mynd trwy broses a benderfynodd pa gymwysterau fyddai neu na fyddai ar gael yn y dyfodol, ac rydym wedi cyhoeddi'r wybodaeth honno, ac mae wedi'i chyhoeddi ar wefan CC.

O ran dyddiadau gorffen y cymwysterau na fyddant yn cael eu caniatáu mwyach, bydd ysgolion, colegau, ac ati, yn gallu cymryd y cymwysterau hyn hyd at y garfan sy'n dechrau yn 2026. Ar yr amod bod y cyrff dyfarnu eu hunain yn dewis gwneud hynny. Mae dyddiadau gorffen y cymwysterau i'w gweld ar wefan CC https://www.qiw.wales/ .

O ran pob un o'r unedau o fewn y gyfres sgiliau ar gyfer bywyd a sgiliau ar gyfer gwaith, mae pob uned yn radd pasio neu fethu. Gall dysgwyr gymryd nifer amrywiol o unedau, a gallant eu cymryd ar lefel mynediad un, lefel mynediad dau, lefel mynediad tri, lefel un neu lefel dau.
Golyga hyn, unwaith y bydd y dysgwyr wedi cymryd yr ystod o unedau cymhwyster yn dibynnu ar y lefelau y maent wedi'u cyflawni, a nifer yr unedau y maent wedi'u cyflawni, bydd canlyniad crynswth ar ffurf dyfarniad, tystysgrif neu ddiploma. Y dyfarniad yw hanner TGAU maint 60 awr dysgu dan arweiniad, Tystysgrif yw 120 awr dysgu dan arweiniad, neu'r hyn sy'n cyfateb i TGAU o ran maint a Diploma yw'r hyn sy'n cyfateb i TGAU dwbl o ran nifer yr oriau dysgu dan arweiniad a'i faint.
Os na all dysgwr gyflawni'r nifer gofynnol o unedau i ennill un dyfarniad, cynigir ardystiad uned.
Mae Cyfeiriadur y Partneriaid Ymgynghorol wedi cael ei roi i bob corff dyfarnu. Awgrymodd JJ y dylai CCYSAGAUauC gysylltu ag unrhyw gyrff nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad.
Cadarnhaodd JJ mai ysgolion sy'n penderfynu pa un o'r chwe chorff dyfarnu y maent yn ei ddewis ar gyfer cymhwyster.

MM: O ran y graddio, gydag Agored Cymru, rydym wedi cael gwybod bod llwyddo ar lefel dau yn gyfwerth â gradd B mewn TGAU. A fydd rhywbeth i gymharu gradd â llwyddo yn y gyfres newydd?

JJ: Am wahanol resymau nid yw CC yn gallu cymharu gwahanol fathau o gymwysterau.
MM: Ar hyn o bryd rydym yn cyflwyno Archwilio Bydolygon Agored Cymru ac roeddem yn meddwl mai eu dyddiad mynediad terfynol oedd 2027.
JJ: Medi 2026 yw'r garfan olaf i'r cymwysterau presennol. Gellir dod o hyd i gadarnhad ar gronfa ddata QiW https://www.qiw.wales/ .
LJ: Dim ond dau gorff dyfarnu y mae CCYSAGauC wedi cysylltu â nhw hyd yn hyn i roi adborth ar yr unedau sy'n gysylltiedig â CGM.

**CAM GWEITHREDU:** CCYSAGauC i e-bostio'r cyrff dyfarnu eraill yn cynnig cefnogaeth ac adborth.

EE: Diolchodd i JJ am y diweddariad.
LJ: Gofynnwyd i swyddogion CCYSAGauC roi adborth i Agored Cymru ac i Pearson
ac maent wedi derbyn amlinelliadau o'r unedau sgiliau sy'n ymwneud â CGM, sef Ffydd a Chredoau yn y Gymuned, Gwerthoedd ar gyfer Bywyd a Dewisiadau Moesegol.
Ar ôl adolygu, mae CCYSAGauC wedi rhoi adborth ac wedi cynnig enghreifftiau i'w cynnwys ac enghreifftiau o ddarllen i'w hystyried.
Mae CCYSAGauC wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru ynghylch y pryderon a yw unedau'r gyfres sgiliau yn ddigonol ar gyfer CGM gorfodol ynghyd â phryderon CCYSAGauC ynghylch y ffaith eu bod yn ddewisol i ysgolion eu cynnig ac yn ddewisol i ddysgwyr eu cymryd. O ran CGM gorfodol i bob myfyriwr blwyddyn 10 a blwyddyn 11, mae'r problemau'n parhau.
Mae'r ffaith bod Cymwysterau Archwilio Bydolygon Agored Cymru wedi cael eu dewis gan Gymwysterau Cymru i beidio â'u dynodi ar gyfer 2027 yn siomedig iawn i ysgolion. Mae'n gymhwyster newydd, dim ond eleni y mae rhai ysgolion wedi'i gymryd, ac mae rhai wedi bod yn ei wneud ers y ddwy flynedd ddiwethaf. Dyma'r cymhwyster sy'n tyfu gyflymaf, ac mae wedi dod yn hynod boblogaidd. Mae athrawon wedi gweithio'n galed iawn ar gynhyrchu adnoddau o safon a datblygu profiadau addysgu a dysgu cyfoethog a phwrpasol ar gyfer y set hon o gymwysterau. Mae'n broblem wirioneddol na fydd eu hangen mwyach ymhen 18 mis, mae'n greulon i'n hathrawon sydd wedi gwneud y gwaith caled a'r ymdrech.
Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r cymhwyster cyfres ar gyfer ABaCh, neu'r cymhwyster Jigsaw ar gyfer ABaCh ledled yr ysgol ac ym mlynyddoedd 10 ac 11. A fydd y ddau gymhwyster hyn yn cael eu dynodi i'w defnyddio ar gyfer ysgolion yn 2027 gan fod rhywfaint o gyfle o fewn y cymwysterau presennol hynny i archwilio rhai themâu CGM.
JJ: Cadarnhawyd mai cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus yw cylch gwaith CC, ac os yw'r cymwysterau hyn yn cael eu hariannu'n fasnachol, maent y tu allan i gylch gwaith CC.

## 10. Cynadleddau EFTRE

Rhannodd Tyler Saunders, athro yn Abertawe, Pennaeth Addysg Grefyddol yn Bishop Gore ac aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC gyflwyniad ar ei phrofiad yng nghynhadledd EFTRE yn Budapest.
Mynychodd TS gyda chyd-athro ac ariannwyd y daith gan CCYSAGauC.
Thema'r gynhadledd oedd **'***The Art of Empowerment in RE*' ac roedd yn edrych ar
gymuned, cymhlethdod, tosturi, ac ymrwymiad. Roedd y cynrychiolwyr yn cynnwys athrawon, academyddion a darlithwyr o bob cwr o Ewrop.
Y prif negeseuon oedd:
- Mae Cymru wedi datblygu'n gymharol dda o ran darpariaeth AG.
- Mae addysg hunaniaeth, gwerthoedd a bydolygon yn ganolog ledled Ewrop.
- Mae athrawon ym mhobman yn cael trafferth gyda materion dadleuol.
- Mae angen addysgu mwy cynnil ar ddealltwriaeth ryng-ffydd—yn enwedig cysylltiadau Iddewig/Mwslimaidd.
- Roedd rhwydweithio a throchi diwylliannol ymhlith yr agweddau mwyaf gwerthfawr.

**CAM GWEITHREDU:** Dosbarthu cyflwyniad TS i aelodau CCYSAGauC.

PL: Mae Cymru yn paratoi cais i letya cynhadledd EFTRE yn 2028 ochr yn ochr â phedair gwlad arall**.** Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi rhoi dyfynbris i Swyddogion CCYSAGAUauC am becyn cynnal cynhadledd ar gyfer y digwyddiad hwn.
Mae diddordeb parhaus mewn cefnogi prosiect arddull Cynefin, sy'n archwilio hunaniaeth, cenedligrwydd a chred grefyddol. Rydym yn gobeithio dod o hyd i ysgolion ledled Ewrop sy'n fodlon partneru a chymharu sut mae "Cynefin" neu ymdeimlad o le a hunaniaeth yn cael ei ddeall mewn gwahanol wledydd. Bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn unwaith y byddwn yn clywed yn ôl gan EFTRE.

**11. Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14-5-25**

Roedd agenda cyfarfod y Pwyllgor Gwaith yn debyg i'r eitemau ar agenda heddiw.

Nid oes ymateb wedi dod gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd i ohebiaeth CCYSAGauC yn mynegi pryder ynghylch y toriadau i'r Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno nad oes angen cod ymddygiad ar wahân ar CCYSAGauC. Mae CCYSAGauC wedi cymryd cyngor pellach ac wedi sefydlu nad yw egwyddorion Nolan yn berthnasol yng Nghymru. Yr hyn sy'n berthnasol yw Fframwaith Moesegol Cymru, a sefydlwyd gan ran tri o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Dyma'r cod ymddygiad y gall CCYSAGauC gyfeirio ato. Mae hwn bellach wedi'i dynnu oddi ar yr agenda.

**12. Diweddariadau**

- **REC (Kathy Riddick)**

- Mae'r Cyngor Addysg Grefyddol wedi bod yn brysur iawn gyda chynnig Lloegr i ychwanegu Addysg Grefyddol at y cwricwlwm cenedlaethol.
  Mae'r symudiad hwn yn mynd i ymgynghoriad pellach a dim ond os oes cytundeb eang o fewn y gymuned Addysg Grefyddol y bydd yn mynd rhagddo. Mae'r cynnig yn seiliedig ar fframwaith cenedlaethol y Cyngor Addysg Grefyddol, yn ddefnyddio dull crefydd a bydolygon. Er ei fod yn rhannu tebygrwydd â CGM yng Nghymru, disgwylir iddo gael ei weithredu yn wahanol.
- Cyfarfu'r Pwyllgor Addysg Grefyddol â Sam Rowlands AS, ar ôl trafodaethau yn y Grŵp Trawsbleidiol Ffydd. Roedd y Prif Swyddog Addysg Grefyddol eisiau deall: Pam mae nifer y myfyrwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch mewn Addysg Grefyddol wedi gostwng yn fwy sydyn yng Nghymru nag yn Lloegr. Effaith dileu'r fwrsariaeth hyfforddi athrawon Addysg Grefyddol yn y ddwy wlad.
  Bydd SR yn holi'r gweinidog addysg am gamau i sefydlogi TGAU/Lefel A CGM a chryfhau nifer y darpar athrawon. Yn galw am adfer y fwrsariaeth a chynnal dadl Diwedd y Dydd yn y Senedd ar bwysigrwydd CGM. Y nod yw cael datganiadau cefnogol ar gofnod cyn etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf, yn hytrach na disgwyl newid polisi ar unwaith.
- Cynhaliodd y REC ei SRGM, lle cyfrannodd PL at drafodaeth panel werthfawr.
- Mae tymor LJ fel cynrychiolydd cyfetholedig Cymru ar fwrdd y REC wedi dod i ben. Roedd cyfraniad LJ yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae'r REC bellach yn chwilio am aelod cyfetholedig newydd o Gymru i gynnal cynrychiolaeth o Gymru.

- **PYCCGM (Phil Lord)**

- Cyflwynodd Yvonne Roberts Adler, sy'n cefnogi dylunio cwricwlwm ar gyfer Llywodraeth Cymru, hyfforddiant ar gwricwlwm sy'n cael ei arwain gan bwrpas ac sy'n canolbwyntio ar brosesau.
  Mae'r dull hwn yn pwysleisio proses a chyd-destun yr ysgol, yn hytrach na rhagnodi cynnwys penodol. Mae Lloegr, i'r gwrthwyneb, yn symud tuag at fodel safonol cynnwys, a all ffurfio sail cwricwlwm cenedlaethol os ceir consensws.
  Awgrymodd adroddiad blaenorol gan yr OECD y dylai Cymru ddiffinio gwybodaeth yn fwy penodol, ond cadarnhaodd Yvonne fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ei dull sy'n cael ei arwain gan brosesau.
  Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod cynghorwyr a staff cymorth ysgolion wedi'u hyfforddi'n dda yn y model hwn.
  Mae diddordeb mewn dod â chynghorwyr ynghyd i archwilio'r dull hwn yn fanylach.
- Rhoddodd Deborah Weston, sydd mewn cysylltiad rheolaidd ag Andrew Pierce yn CBAC, gyflwyniad ar y gostyngiad mewn ymgeiswyr Safon Uwch ledled Cymru. Bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar:
  - Sut i wella niferoedd myfyrwyr
  - Sut i gefnogi ardaloedd lle mae'r diddordeb yn gryfach
  - Sut i rannu a hyrwyddo arfer effeithiol
- Mae manylion cyswllt wedi'u diweddaru ar gyfer ymgynghorwyr yn cael eu casglu. Unwaith y ceir caniatâd gan yr ychydig ymgynghorwyr sy'n weddill, bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo i'w cynnwys ar wefan CCYSAGauC.
- Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Sam Clutton (LIC) i drafod materion y mae hi wedi'u disgrifio fel cydlyniant cymunedol. Mae'r drafodaeth yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â phryderon sy'n deillio o ddileu'r hawl i dynnu'n ôl. Mae LIC yn ceisio cael gafael ar unrhyw dystiolaeth anecdotaidd gan rieni ynghylch y mater hwn. Mae PL yn croesawu adborth i'w gyflwyno yn y cyfarfod.



DRAFT

- **Estyn (Gwawr Meirion)**
  Adroddodd GM y canlynol:
  Mae Estyn wedi cyhoeddi ei mewnwelediadau cynnar i'r adroddiad blynyddol. Mae'r mewnwelediadau hyn, sydd ar gael ar wefan Estyn, yn cynnig negeseuon cychwynnol ar draws y sector am gryfderau a meysydd i'w gwella. Bwriad rhannu'r canfyddiadau cynnar hyn yw cefnogi ysgolion yn gynharach yn y flwyddyn academaidd, gan nad yw'r adroddiad blynyddol llawn yn cael ei ryddhau tan ddiwedd mis Ionawr neu ddechrau mis Chwefror.

  **Dyniaethau a CGM:**
  - Mae mewnwelediadau cynnar ar gyfer ysgolion uwchradd yn nodi rhai diffygion yn ehangder a dilyniant dysgu yn y dyniaethau, sy'n aml yn gysylltiedig â newidiadau i gynllunio'r cwricwlwm.
  - Bydd yr adroddiad blynyddol llawn yn cynnwys pennod bwrpasol ar y dyniaethau, gan gwmpasu sectorau cynradd, uwchradd, a sectorau nas cynhelir. Bydd y bennod hon yn cynnwys negeseuon sy'n berthnasol i CGM, ond ni ellir rhannu'r rhain eto gan fod y cynnwys yn dal i fynd trwy broses sicrhau ansawdd fewnol Estyn.

  **Cyfeiriadau at CGM mewn Adroddiadau Arolygu**:
  Mynegodd GW y pryderon nad yw CGM bob amser yn cael ei grybwyll yn benodol mewn adroddiadau arolygu.
  - Mae Estyn yn gwerthuso ansawdd a safonau addysg ond nid yw'n archwilio cydymffurfiaeth, nac yn gweithredu fel rheoleiddiwr ond yn edrych ar ofynion gorfodol.
  - Nid yw Estyn yn ffafrio unrhyw fodel dylunio cwricwlwm penodol; yr hyn sy'n bwysig yw'r effaith ar gynnydd disgyblion.
  - Mae arolygwyr yn ystyried yr holl elfennau statudol, gan gynnwys CGM, wrth werthuso'r Cwricwlwm i Gymru.
  - Ysgrifennir adroddiadau trwy eithriad, sy'n golygu mai dim ond pan fo cryfderau neu wendidau nodedig y crybwyllir CGM.
  - Nid yw absenoldeb cyfeiriad penodol yn golygu bod CGM wedi'i anwybyddu; mae'n parhau i fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth.

  **Camau Nesaf**
  - Unwaith y bydd y bennod ar y dyniaethau wedi'i chyhoeddi ddechrau'r gwanwyn, awgrymodd GM ddychwelyd i drafod y negeseuon allweddol yn fanylach.

  EE: Soniodd mai cyfrifoldeb yr ALl yw cydymffurfio.
  GW: Oherwydd cyfyngiadau amser, cynigiodd GM ymateb i gwestiynau yn fanylach ar ôl y cyfarfod.

- ***Materion lleol / ymholiadau***
- Derbyniodd CCYSAGauC gais gan Geredigion ynghylch sut y gallant adolygu eu maes llafur o fewn y cyfnod statudol o 5 mlynedd. Ymatebodd CCYSAGauC gyda chyngor.
- RJ: Roedd Ceredigion wedi cynnal arolwg ymhlith ysgolion ar ddefnydd y maes llafur lleol presennol, derbyniwyd 9 ymateb ac nid yw rhai yn ei ddefnyddio neu nid ydynt yn ei gael yn ddefnyddiol iawn. Arweiniodd hyn at gyfarfod ar y cyd ag aelodau CYSAG ac athrawon i ddeall pethau o'r rheng flaen. Penderfynwyd cadw'r maes llafur presennol tan yr adolygiad swyddogol 5 mlynedd a darparu dolenni i adnoddau i helpu i gefnogi athrawon. Roedd RJ yn gwerthfawrogi cyngor CCYSAGauC.

**13. Gohebiaeth**

Gofynnodd Consortiwm Canolbarth y De am gyngor ynghylch Undeb Cristnogol sydd wedi'i sefydlu mewn ysgol. Mae CCYSAGAUC mewn trafodaethau â LlC ynghylch y mater hwn.

**14. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)**

Nid yw JN, trawsgrifiwr cyfarfodydd CCYSAGauC, bellach yn gallu cynhyrchu cofnodion y cyfarfod. Diolchodd EE i JN am y gefnogaeth werthfawr wrth gynhyrchu'r cofnodion a diolchodd hefyd i SJ am gyfieithu.

**15. Dyddiad y cyfarfod nesaf (CCB) –** drwy Zoom, yn cael ei letya gan Gaerdydd, dyddiad ar hyn o bryd 19 Mawrth 2026.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.05.

This page is intentionally left blank

**CYSAG Ynys Mon – Cynllun Datblygu (2025-26)**

**Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol):**
Prif rolau CYS(AG) yw:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd, neu Ddatblygiad
- Ysbrydol a Moesol.
- Ystyried ceisiadau gan Benaethiaid i gael rhyddhau eu hysgol o'r gofyniad statudol sy'n nodi bod rhaid i'w sesiynau Addoli ar y Cyd fod yn gyfan
- gwbl neu'n bennaf o natur gyffredinol Gristnogol (gelwir y fath geisiadau'n 'Ddyfarniadau').
- Gofyn i Awdurdod Lleol adolygu ei Faes Llafur Cytunedig.
- Monitro a chefnogi darpariaeth AG, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn
- ysgolion yr Awdurdod Lleol.
- Rhoi cyngor ar y maes llafur AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cytunwyd arno gydag athrawon, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau
- athrawon.
- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar ddarparu hyfforddiant i athrawon (mewn AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg).
- Ystyried cwynion am ddarpariaeth AG, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd a wneir i'r Awdurdod Lleol.
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith.

**Cyfansoddiad y CYS(AG):**
Mae gofynion statudol sefydlu CYS(AG) yn gofyn am lunio tri phwyllgor o aelodau:

- Grŵp A - Cynrychiolwyr byd-olygon crefyddol ac anghrefyddol
- Grŵp B - Cynrychiolwyr yr athrawon
- Grŵp C - Cynrychiolwyr y Cyngor Sir
- Mae hawl hefyd i gyfethol aelodau.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26**
Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG)
Blaenoriaeth 2: Monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol
Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol

### *Anglesey SAC(RE) – Development Plan (2025-26)*

***The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education):***

*The principal roles of SAC(RE) are:*

- *Advising the Local Authority on matters to do with Religious Education, Religion, Values and Ethics and collective worship, or Spiritual and Moral Development.*
- *Consider applications from Headteachers that their school be released from the statutory requirements for Collective Worship to be wholly or mainly of a broadly Christian character (such applications are known as 'Determinations').*
- *Require a Local Authority to review its Agreed Syllabus.*
- *Monitor and support the provision of RE, RVE, collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.*
- *Give advice on teacher agreed syllabus RE and RVE including the choice of teacher materials.*
- *Advising the Local Authority on the provision of training for teachers (in RE and RVE).*
- *Considering complaints about the provision and delivery of RE, RVE and collective worship made to the Local Authority.*
- *To publish an Annual Report on its work.*

***The Composition of SAC(RE):***

*The statutory requirements for the setting up of SAC(RE)s require three committees of members:*

- *Group A - Representatives of religious and non-religious worldviews.*
- *Group B - Teacher representatives.*
- *Group C - County Council representatives.*
- *There is also the right to co-opt members.*

***Priorities for 2025-26***

*Priority 1:* *To develop the effectiveness of SAC(RE)*

*Priority 2:* *Monitor and support the provision of RE, RVE, in the schools of the Local Authority.*

*Priority 3:* *Monitor and support the provision of collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.*

**Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG)/**
***Priority 1: To develop the effectiveness of SAC(RE)***

**Rheswm am y Flaenoriaeth/*Reason for Priority***

- Mae gan CYS(AG) Ynys Môn nifer o swyddi gwag ar Bwyllgor A: Cynrychiolwyr Ffydd a Chred.
- Mae CYS(AG) Ynys Môn yn cynnig cymorth i ysgolion, ond faint mae'r ysgolion yn gwybod am ein gwaith? Sut wyddom ni hyn?
- *Anglesey SAC(RE) has a number of vacancies on Committee A: Faith and Belief Representatives.*
- *Anglesey SAC(RE) provide support for schools, but how much do schools know about our work? How do we know?*

**Meysydd i'w Datblygu/*Areas to Develop***

1) Sicrhau aelodaeth lawn ar dri phwyllgor CYS(AG).
2) 2) Codi proffil CYS(AG) yn yr Awdurdod Lleol.

*1) To ensure a full complement of members on all three SAC(RE) Committees.*
*2) To raise the profile of SAC(RE) amongst the Local Authority*



| Activity | Lead person | Timescale | Support | Monitoring | Success Criteria | Date Completed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Specific Action to be taken** | **Who takes responsibility?** | **Start date?** | **Support needed?** | **Who will check on progress and when?** | **What will have improved? How will this impact schools/teachers?** | |
| **1. To ensure a full complement of members on all three SAC(RE) Committees.** | | | | | | |
| a. Identify and fill SAC(RE) vacancies, especially for faith and belief representatives. | LA, Chair | Spring Term | LA, Chair to contact possible representatives | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | CYS will be fully represented across all 3 committees | |
| **2. To raise the profile of SAC(RE) amongst the Local Authority** | | | | | | |
| a. Distribute SAC(RE)'s Annual Report and Newsletter to schools to raise awareness | LA | Autumn Term | LA to distribute the Annual report and newsletters | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Schools and partner organisations will be more aware of the work of SAC(RE) | **Autumn 2025** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| b. SAC(RE) members and relevant organisations to share SAC(RE) minutes and Annual report amongst their membership | All SAC members | Spring and Summer Term | LA to make Annual report and SAC minutes available | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Membership organisations more aware of SAC | |
| c. Raise SAC(RE)'s profile among elected members. Annual Report to be distributed amongst councillors and cabinet members<br><br>To be included in an Education Scrutiny Committee meeting | Elected SAC members | Spring and Summer Terms | LA to distribute Annual report to all elected members the LA including Cabinet Members | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Council more aware of the work of SAC. Council can approach SAC for information around schools, RVE, policy, anti-racist practice etc… | |
| d. Develop the teachers' network (TEAMS) to promote SAC(RE)'s work. LA to collect a list of RVE leads in all LA schools | LA | Autumn Term | LA to contact schools and collect information about RVE leads | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Teacher's part of a TEAMs network and informed about the work of the SAC(RE) | |
| e. The Annual report to include materials and resources that support teachers developing their RVE curriculum | LA | Summer Term | LA to publish the Annual report | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Schools and other stakeholders informed of support materials for RVE/CGM | |
| f. Develop a termly CYS(AG) newsletter informing schools | LA | Termly | LA to distribute/host the articles for the newsletter, members contribute by wiring up visits to schools | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Schools and other stakeholders informed of support materials for RVE/CGM | |

**Blaenoriaeth 2: Monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol**
***Priority 2: Monitor and support the provision of RE, RVE, in the schools of the Local Authority.***

**Rheswm am y Flaenoriaeth/*Reason for Priority***

- Gweler 'Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol)'.
- Helpu ysgolion i fodloni gofynion statudol.
- *See 'The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education)'.*
- *To support schools to meet statutory requirements*

**Areas to Develop**

1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysgolion o ofynion Cwricwlwm Cytûn Môn.
2) Cynorthwyo ysgolion i wella eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
3) Cefnogi ysgolion wrth iddynt werthuso eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hunain.

*1) Gain an understanding of schools' awareness of the requirements of the Anglesey Agreed Syllabus.*
*2) To help schools improve their RVE provision.*
*3) To support schools as they evaluate their own RVE provision.*



| Activity | Lead person | Timescale | Support | Monitoring | Success Criteria | Date Completed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Specific Action to be taken** | **Who takes responsibility?** | **Start date?** | **Support needed?** | **Who will check on progress and when?** | **What will have improved? How will this impact schools/teachers?** | |
| **1) Gain an understanding of schools' awareness of the requirements of the Anglesey Agreed Syllabus.** | | | | | | |
| a. Agreed Syllabus Guidance for catchment areas meeting. | LA | Spring Term | Briefing sessions at Head Teachers meeting | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Actions and support program based on the feedback from Schools | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| b. Request 14–19 Leads to report on RVE provision in their schools to better understand subject uptake and development | LA, PL | Autumn and Spring Term | Questions to be formulated for leads to use | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | SAC aware of the RVE provision for 14-19 year-olds in LA schools | |
| **2) To help schools improve their RVE provision.** | | | | | | |
| a. Develop a teachers' network including RVE Coordinators for shared learning and best practice | LA, PL | Ongoing | LA to request the contact details of all RVE leads in LA's schools | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | A list of schools created and included on the Ynys Mon RVE TEAMs | |
| b. Disseminate support materials, such as example RVE policy, support for managing the removal of the right of Withdrawal | LA, PL | Autumn Term<br>Ongoing | Materials to be available on the TEAMs network | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Schools have access to support material | |
| c. Consult schools on what they would like in regards to support for RVE | LA | Autumn Term | LA to provided time at teachers briefing sessions | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Programme of support to be developed | |
| d. Termly Newsletter i.e. to include research on critical religious literacy etc… | PL | Termly | LA to disseminated newsletter | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Schools are regularly informed | |
| e. Regular meeting for RVE leads to network | LA | Termly? | LA to advertise | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Schools supporting each other and sharing good practice | |
| f. RVE consultant to provide individual support for schools at the request of the LA | LA and PL | Ongoing | LA to request as required | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Individual schools progress | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3) To support schools as they evaluate their own RVE provision.** | | | | | | |
| a. Creation of evaluation criteria for RVE provision | LA and PL | Summer Term | LA to organise and facilitate | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Materials created and distributed | |

**Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol**

***Priority 3: Monitor and support the provision of collective worship and spiritual, moral, social and cultural development in the schools of the Local Authority.***

**Rheswm am y Flaenoriaeth/*Reason for Priority***

- Gweler 'Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar Addysg Grefyddol)'.
- Mae gofyn i ysgolion ddarparu Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.
- *See 'The Role of the Standing Advisory Council (for Religious Education)'.*
- *There is a requirement on schools to provide a Daily Act of Collective Worship.*

**Meysydd i'w Datblygu/*Areas to Develop***

1) Cael dealltwriaeth o ymwybyddiaeth yr ysgolion o'r disgwyliadau mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.
2) Helpu ysgolion i wella eu darpariaeth Addoli ar y Cyd.
3) Helpu ysgolion i werthuso eu darpariaeth Addoli ar y Cyd eu hunain.

*1) Gain an understanding of schools' awareness of the expectations regarding Collective Worship.*
*2) To help schools improve their Collective Worship provision.*
*3) To support schools as they evaluate their own Daily Act of Collective Worship.*

| Activity | Lead person | Timescale | Support | Monitoring | Success Criteria | Date Completed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Specific Action to be taken** | **Who takes responsibility?** | **Start date?** | **Support needed?** | **Who will check on progress and when?** | **What will have improved? How will this impact schools/teachers?** | |
| **1) Gain an understanding of schools' awareness of the expectations regarding Collective Worship.** | | | | | | |
| a. Consult teachers to gauge their awareness of the requirements regarding Collective Worship | LA | Spring Term | Use of the HT briefing Sessions | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Increased LA awareness of schools' needs. | |
| **2) To help schools improve their Collective Worship provision.** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| a. Add a section on collective worship within RVE/CGM TEAMs network resources | LA | Spring Term | Schools to be made aware of the materials available on Ynys Mon RVE TEAMS | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | | |
| b. Disseminate support materials, such as example Collective Worship policy | LA | Autumn Term<br>Ongoing | Materials to be available on the TEAMs network | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | Schools have access to support material. | |
| **3. To support schools as they evaluate their own Daily Act of Collective Worship.** | | | | | | |
| a. Develop and share a checklist for schools to self-evaluate and improve collective worship and related development | LA and PL | Summer Term | PL to facilitate and provide professional support | All progress will be reported in the CYS(AG) Meetings | The creation of guidance and support materials for schools | |

This page is intentionally left blank

Draft

**Rheoli Pryderon Rhieni Ynghylch CGM**

Mae mynd i'r afael â phryderon rhieni ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn agwedd bwysig ar feithrin amgylchedd ysgol tryloyw a chynhwysol. Mae'n rhaid i ysgolion fod yn barod i ymgysylltu'n feddylgar â rhieni, gan sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu rheoli gyda sensitifrwydd a gofal. Mae'r adran hon yn amlinellu camau ymarferol i ymateb yn effeithiol i bryderon a godir ynglŷn â darpariaeth CGM, gan anelu at adeiladu ymddiriedaeth a dealltwriaeth ar y cyd rhwng ysgolion a theuluoedd.

Rhestr o Weithredoedd ar gyfer Ysgolion i Ymateb i Bryderon Rhieni ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

1. **Cydnabod a chofnodi'r pryder**
   - Gwrando'n ofalus ac yn barchus ar bryder y rhiant.
   - Dogfennu'r pryder yn ysgrifenedig, gan gynnwys y dyddiad, yr amser a manylion y mater sy'n cael ei godi.
2. **Gofyn am gyngor**
   - Os oes angen, ymofyn am gyngor gan yr ymgynghorydd CGM, ymgynghorydd esgobaethol, CYS(AG), awdurdod lleol, consortia lleol neu swyddog diogelu, yn enwedig os yw'r pryder yn cynyddu neu'n cynnwys materion ehangach yn y gymuned.
3. **Ymchwilio'r pryderon**
   - Gallai pryderon fod yn seiliedig ar:
     a) Addysgu CGM heb ystyriaeth i faes llafur cytunedig neu ganllawiau CGM LlC.
     b) Darpariaeth CGM ddim yn wrthrychol, yn feirniadol nac yn blwraliaethol.
     c) Camddealltwriaeth rhieni mewn perthynas â natur wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol CGM.
     d) Rhieni ddim yn ymwybodol nad oes unrhyw hawl i dynnu'n ôl o CGM.
     e) Barn ragfarnllyd neu hiliol gan rieni.
     f) Arall.

| Os a) neu b) | Os c) neu d) | Os e) |
|---|---|---|
| **Pryder**<br>- A ddwedwyd rhywbeth ar ymweliad ysgol â man addoli neu gan ymwelydd a gafodd ei ystyried yn amhriodol gan y rhiant? E.e., "dylech gredu…", "rydym i gyd yn meddwl…", etc.<br>- A yw CGM yn cael ei addysgu mewn ffordd wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol - gan osgoi "rydym i gyd yn credu…" neu "fel Cristnogion rydym i gyd yn…"?<br><br>**Gweithredoedd**<br>- Defnyddio gwasanaethau'r ymgynghorydd CGM, ymgynghorydd esgobaethol neu gynrychiolydd CYS(AG) yr ALl i archwilio darpariaeth.<br>- Gall yr ymgynghorydd CGM, yr ymgynghorydd esgobaethol neu gynrychiolydd CYS(AG) yr | **Pryder**<br>- Mae rhiant yn dymuno arfer eu hawl blaenorol i dynnu eu plant o bob agwedd neu un agwedd o CGM.<br>- Nid yw rhiant yn deall natur wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol CGM.<br><br>**Gweithredoedd**<br>- Cadarnhau ymrwymiad yr ysgol i gynhwysiad, amrywiaeth a pharch tuag at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol.<br>- Mae'n rhaid i'r ysgol roi 'ystyriaeth' i faes llafur cytunedig yr ALl a chanllawiau CGM Llywodraeth Cymru.<br>- Disgrifir CGM fel gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol.<br>- Ystyried rhannu manylion cwricwlwm, polisïau a rhesymwaith addysgu am wahanol grefyddau, gan gynnwys crefyddau megis Islam ac Iddewiaeth.<br><br>**Nodiadau**<br>**a. Amlblwyfol** | **Pryder**<br>- Pennu os yw'r gŵyn/pryder yn seiliedig ar gymhellion hiliol a gweithredu'n unol â hynny. A yw'r pryder yn cynnwys iaith neu ymddygiad y gall fod yn hiliol neu'n wahaniaethol (e.e., gwrthwynebiadau yn targedu Islam neu Iddewiaeth yn benodol)? Dilynwch bolisi'r ysgol ar gyfer cofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol.<br><br>**Gweithredoedd**<br>- Logio'r digwyddiad yn ffurfiol yn defnyddio system |

| | | |
|---|---|---|
| ALl awgrymu nad yw darpariaeth CGM yr ysgol yn rhoi ystyriaeth i faes llafur cytunedig yr ALl na chanllawiau CGM LlC. Os felly, gweithio â'r ymgynghorydd CGM, yr ymgynghorydd esgobaethol neu gynrychiolydd CYS(AG) yr ALl, cynllunio gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm, e.e., adolygu polisi a chwricwlwm CGM yr ysgol er eglurder a chydymffurfiaeth. Darparu hyfforddiant i athrawon ar CGM gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol.<br>- | Mae'n rhaid i'r CGM a ddarperir mewn ysgolion fod yn amlblwyfol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i CGM:<br>• adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn y brif grefydd sef Cristnogaeth, gan ystyried athrawiaeth ac ymarferion prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru.<br>• adlewyrchu'r ffaith bod nifer o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol hefyd yn cael eu cynnal yng Nghymru.<br>**b. Gwrthrychol a Beirniadol**<br>• Mae'n rhaid i ysgolion ddarparu CGM sy'n wrthrychol ac yn feirniadol, o ran cynnwys a dull. Mae hyn oherwydd bod CGM yn bwnc ar gyfer yr holl ddysgwyr, waeth beth yw eu credoau personol neu eu cefndir teuluol. Nid yw CGM yn gofyn nac yn annog dysgwyr i fod yn grefyddol neu'n anghrefyddol, nac i dderbyn safbwynt wedi'i ragnodi, ac mae'n rhaid i'r holl ysgolion lynu at hyn. Cynllunnir CGM yn sensitif a chaiff ei ddarparu gydag integredd proffesiynol. | adrodd ar ddigwyddiadau hiliol yr ysgol, gan nodi natur y pryder ac unrhyw sylwadau cysylltiedig. |

4. **Hysbysu CYS(AG) (os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny)**
    - Hysbysu'r rhieni efallai y byddant eisiau rhannu eu pryderon gyda CYS(AG).
    - Hysbyswch CYS(AG) o bryder y rhiant. Gellir gwneud hyn drwy'r ymgynghorydd CGM neu glerc y CYS(AG).
5. **Darparu Cymorth**
    - Darparu cymorth i ddisgyblion, staff neu ymwelwyr fel y bo'n briodol.

| Grŵp | Mathau o Gefnogaeth sydd eu Hangen |
|---|---|
| Staff | Hyfforddiant, cyngor gan ymgynghorydd CGM/CYS(AG), cefnogaeth polisi a chwricwlwm, canllawiau diogelu, cefnogaeth llesiant. |
| Disgyblion | Gofal bugeiliol, eglurder ar bwrpas CGM, dilyn i fyny ar ôl digwyddiadau hiliol |
| Rhieni | Gwybodaeth glir, sicrwydd, eglurder cyfreithiol (dim tynnu'n ôl), deialog barchus, prosesau gwrth-hiliaeth wedi'u hegluro, llwybrau i CYS(AG) |
| Ymwelwyr | Eglurder ar bwrpas CGM, dilyn i fyny ar ôl digwyddiadau hiliol |

Draft

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Rwy'n ysgrifennu atoch i gydnabod eich pryder diweddar mewn perthynas â darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ein hysgol. Rydym yn cymryd unrhyw adborth gan rieni o ddifrif, ac yn gwerthfawrogi eich bod wedi cymryd yr amser i rannu eich barn gyda ni.

Fe'ch cysurir bod ein hysgol yn ymrwymedig i feithrin amgylchedd parchus a chynhwysol ar gyfer pob disgybl, aelod o staff ac ymwelwr. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym yn dilyn y cwricwlwm statudol ar gyfer CGM, a ddylunnir i adlewyrchu ystod eang o gredoau a gwerthoedd yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Caiff ein cwricwlwm CGM ei ddylunio'n ofalus i gyflwyno golwg cytbwys ac eang o fydwelediadau crefyddol ac anghrefyddol. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod addysgu'n cael ei ddarparu mewn ffordd wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn cael eu hannog i archwilio gwahanol gredoau a gwerthoedd, i ddatblygu barnau gwybodus ac i ymgysylltu â deialog barchus, i gyd mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Rydym yn credu bod meithrin sgiliau meddwl beirniadol a hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd yn hanfodol ar gyfer paratoi ein disgyblion i ffynnu mewn cymdeithas amrywiol. Nid ein nod yw hyrwyddo unrhyw set benodol o gredoau, ond yn hytrach rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i ddisgyblion sydd eu hangen arnynt i wneud eu dewisiadau gwybodus eu hunain.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu os hoffech drafod ein dull gweithredu mewn mwy o fanylder, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ac yn aros yn ymrwymedig i sicrhau bod holl aelodau ein cymuned ysgol yn teimlo wedi'u parchu a'u cynnwys. Efallai y byddwch yn dymuno rhannu eich pryderon â'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYS(AG)), sy'n goruchwylio darpariaeth CGM yn ein hardal.

Diolch unwaith eto am godi eich pryder. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ac yn aros yn ymrwymedig i sicrhau bod holl aelodau ein cymuned ysgol yn teimlo wedi'u parchu a'u cynnwys.

Yn gywir,

[Enw]

[Rôl]

[Enw'r Ysgol]

Draft

This page is intentionally left blank